# Ymgynghoriad ar gais Cymdeithas y Diwydiant Niwclear am Gyfiawnhad Rheoleiddiol ar gyfer yr ‘Adweithydd Modiwlaidd Bach (SMR) Rolls-Royce' a ddyluniwyd gan Rolls-Royce SMR Limited

## Rheoliadau Cyfiawnhau Arferion sy'n ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio 2004 (fel y'u diwygiwyd yn 2018 a 2019)

Hydref 2025

Adran yr Amgylchedd, Amaeth a Materion Gwledig ydym ni. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn fwy pur, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn RRSMRAPPLICATION@defra.gov.uk

# Cynnwys

Trosolwg.......... 3
Cefndir Deddfwriaethol a Rheoleiddiol .......... 4
Cyd-destun y Cyfiawnhad .......... 4
Graddfa Ddaearyddol .......... 5
Cais am Gyfiawnhad gan Gymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA) ar gyfer Rolls-Royce SMR .......... 5
Cwestiynau'r Ymgynghoriad .......... 6
Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth .......... 6
Gwybodaeth Arall .......... 6
Gwybodaeth amdanoch chi .......... 6
Cwestiynau am y Cais a Gwybodaeth Atodol .......... 7
Sut mae ymateb .......... 8
Adborth ymgyngoreion ar yr arolwg ar-lein .......... 9
Ymatebion ymgyrchu .......... 9
Y Camau Nesaf .......... 10

# Trosolwg

Rydym yn gofyn am eich barn ar gais am benderfyniad cyfiawnhad rheoleiddiol ar y ‘Rolls-Royce SMR’ (adweithydd modiwlaidd bach). Mae'r adweithydd hwn wedi'i ddylunio gan Rolls-Royce SMR Limited a gwnaed y cais gan Gymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA), y corff sy'n cynrychioli'r diwydiant niwclear sifil yn y DU.

Mae cyfiawnhad yn gam rheoleiddio cynnar y mae'n rhaid ei fodloni cyn y gellir defnyddio math newydd o adweithydd niwclear yn y DU. Mae cyfiawnhad yn pennu'r dosbarth neu'r math o arfer y mae'r arfer arfaethedig yn perthyn iddo, ac yn darparu asesiad lefel uchel ynghylch a yw'r dosbarth neu'r math hwnnw o arfer yn rhoi budd cyffredinol i gymdeithas.

Mae cyfiawnhau’r cais yn gyfrifoldeb Ysgrifennydd Gwladol Defra fel yr Awdurdod Cyfiawnhau dros ynni niwclear. Pan fyddwn yn cyfeirio at Defra, rydym yn cyfeirio at Ysgrifennydd Gwladol Defra.

Cyflwynir y cais a'r wybodaeth atodol gan yr ymgeisydd fel un atodiad ar wahân, gyda'r wybodaeth atodol yn cael ei chyflwyno ar ôl y cais. Darllenwch y cais a'r wybodaeth atodol ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon.

Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 8 wythnos. Agorodd yr ymgynghoriad ar 6 Hydref 2025 a daw i ben ar 1 Rhagfyr 2025.

# Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

Er mwyn cyfrannu at baratoi dogfen penderfyniad ddrafft gan Defra, rydym yn gofyn am eich barn ar y canlynol:

- a yw’r arfer arfaethedig yn perthyn i ddosbarth newydd o arfer neu’n un sy’n bodoli’n barod
- a yw'r arfer arfaethedig yn ddosbarth neu'n fath o arfer sydd wedi'i ddiffinio'n briodol ar gyfer penderfyniad cyfiawnhad
- a yw'r wybodaeth yn y cais a'r wybodaeth atodol yn addas i Defra allu gwneud asesiad priodol o fanteision ac anfanteision yr arfer arfaethedig

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â pholisi ynni niwclear ehangach, gan gynnwys lleoli adweithyddion niwclear.

# Cefndir Deddfwriaethol a Rheoleiddiol

**Cyd-destun y Cyfiawnhad**

Mae fframwaith cyfreithiol y DU ar gyfer Cyfiawnhad wedi'i nodi yn Rheoliadau Cyfiawnhau Arferion sy'n ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio 2004, fel y'u diwygiwyd yn 2018 a 2019 (‘y Rheoliadau’).

Daeth Defra yn Awdurdod Cyfiawnhau ar gyfer ynni niwclear yn dilyn diwygiad i'r Rheoliadau yn 2018 sy'n gofyn am wahanu swyddogaethau rhwng yr adran sy'n gyfrifol am benderfyniadau polisi ar ynni niwclear (yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net - DESNZ) a'r adran sy'n cynnal yr asesiad cyfiawnhad. Mae'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net wedi cyhoeddi canllawiau ar y broses gyfiawnhau.

Gall unigolyn wneud cais i Defra am benderfyniad cyfiawnhau ar gyfer dosbarth neu fath newydd o arfer ym maes ynni niwclear. Diffinnir “arfer” yn y canllawiau ar gyfiawnhau fel “gweithgaredd dynol sy'n peri bod unigolion yn dod i fwy o gysylltiad ag ymbelydredd o ffynhonnell ymbelydredd ac sy'n cael ei reoli fel cysylltiad wedi’i gynllunio”. Mae dosbarth neu fath o arfer yn newydd os na chynhaliwyd arfer o'r dosbarth neu'r math hwnnw yn y DU cyn 6 Chwefror 2018, ac os nad oes cyfiawnhad eisoes dros y dosbarth neu'r math hwnnw o arfer. Mae cofrestr o arferion presennol ar gael ar GOV.UK.

Ar ôl i gais ddod i law, Defra sy'n pennu cydbwysedd y manteision a'r anfanteision i unigolion a chymdeithas o ddosbarth a math newydd o arfer, yn ogystal â phenderfynu a yw hyn yn drech na'r niwed iechyd y gallai'r dosbarth neu'r math o arfer ei achosi. Mae'r asesiad yn seiliedig ar ddadansoddiad o fanteision ac anfanteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, iechyd a diogelwch, gwaredu gwastraff a datgomisiynu'r arfer arfaethedig. Mae niwed i iechyd yn golygu gostyngiad yn hyd ac ansawdd bywyd poblogaeth ar ôl dod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o adweithiau meinwe, canser ac anhwylder genetig difrifol.

Wrth wneud y penderfyniad, byddwn yn ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd a'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Byddwn hefyd yn ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ac ymgyngoreion statudol. Yr ymgyngoreion statudol yw Asiantaeth yr Amgylchedd, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall ar y penderfyniad drafft cyn i’r penderfyniad terfynol gael ei wneud.

Dim ond un o'r camau rheoleiddio y mae'n rhaid eu cymryd cyn y gellir adeiladu a gweithredu adweithydd niwclear newydd yn y DU yw’r broses cyfiawnhau niwclear. Rhaid i'r gweithredwr arfaethedig gael ganiatâd am sawl peth arall, gan gynnwys trwydded safle niwclear, trwyddedau amgylcheddol a chaniatâd cynllunio, prosesau sydd y tu allan i'r

ymgynghoriad hwn. I gael rhagor o wybodaeth ewch i '[Y ffordd rydym yn rheoleiddio diogelwch niwclear radiolegol a sifil yn y DU]'.

**Graddfa Ddaearyddol**

Mae rheoleiddio'r sector ynni niwclear wedi'i neilltuoac Ysgrifennydd Gwladol Defra yw'r unig Awdurdod Cyfiawnhau ar gyfer adweithyddion niwclear newydd. Mae penderfyniadau cyfiawnhau ar gyfer adweithyddion niwclear newydd ar draws y DU.

Fodd bynnag, mae llawer o feysydd polisi perthnasol eraill, gan gynnwys rheoliadau cynllunio ac amgylcheddol, wedi'u datganoli'n gyffredinol. Mae hyn yn golygu na ellir adeiladu adweithyddion niwclear newydd yn yr Alban na Gogledd Iwerddon heb gymeradwyaeth Llywodraeth yr Alban na Chynulliad Gogledd Iwerddon, ac mewn rhai achosion bydd angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu gorsafoedd niwclear newydd yng Nghymru. Mae Llywodraeth yr Alban yn gwrthwynebu adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear newydd gan ddefnyddio technolegau ymholltiad cyfredol. Nid oes gorsafoedd pŵer niwclear yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd, ac nid oes unrhyw drefniadau ar gyfer gorsaf bŵer niwclear arfaethedig. Nid yw ynni niwclear wedi'i gynnwys yn llwybr Strategaeth Ynni Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon tuag at sero net.

## Cais am Gyfiawnhad gan Gymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA) ar gyfer Rolls-Royce SMR

Ym mis Gorffennaf 2024, cawsom gais gan Gymdeithas y Diwydiant Niwclear am benderfyniad cyfiawnhad mewn perthynas â SMR Rolls-Royce SMR. Mae'r cais yn diffinio'r arfer arfaethedig fel a ganlyn:

"Cynhyrchu pŵer o ynni niwclear gan ddefnyddio tanwydd ocsid gyda chyfran isel o ddeunydd ymholltol mewn adweithydd thermol sy'n gymedrolydd dŵr ysgafn wedi'i oeri, a elwir ar hyn o bryd yn RR SMR a ddyluniwyd gan Rolls-Royce SMR Limited."

Ceir disgrifiad o dechnoleg Rolls-Royce SMR yn y cais. Mae'r ymgeisydd wedi cynnig bod ei dechnoleg yn adweithydd modiwlaidd bach oherwydd ei gapasiti cynhyrchu allbwn llai a'i faint ffisegol o'i gymharu ag adweithyddion niwclear confensiynol ar raddfa gigawat, a'r potensial ar gyfer safoni a dyblygu prosesau adeiladu.

Gan na chynhaliwyd arfer arfaethedig yr ymgeisydd yn y DU cyn 6 Chwefror 2018 ac nad oes cyfiawnhad drosto eisoes, rydym o'r farn bod yr arfer arfaethedig yn perthyn i ddosbarth neu fath newydd o arfer a bod angen penderfyniad cyfiawnhau.

Mae'r cais a'r wybodaeth atodol yn cynnwys gwybodaeth sy'n ceisio dangos bod manteision lleihau carbon, diogelwch ynni, economaidd, cymdeithasol ac eraill yr arfer arfaethedig yn drech na'r niwed i iechyd y gallai'r arfer arfaethedig ei achosi.

Fe wnaethom roi gwybod i'r ymgeisydd ym mis Tachwedd 2024 ac ym mis Ebrill 2025 y dylai ddarparu rhagor o wybodaeth benodol er mwyn gallu cynnal asesiad llawn o fanteision ac anfanteision yr arfer arfaethedig. Cawsom ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd ym mis Ionawr 2025 a mis Mai 2025. Mae'r wybodaeth hon ar gael fel gwybodaeth atodol a gyflwynir mewn un atodiad gyda'r cais.

# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

## Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth

Mae sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr ymgynghoriad hwn sydd ar gael ar Citizen Space.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet.

## Gwybodaeth amdanoch chi

Mae 3 chwestiwn ymgynghori yr hoffem i chi eu hateb. Ond yn gyntaf, er mwyn ein helpu i ddadansoddi'r ymatebion a gawn, hoffem ddeall mwy amdanoch chi neu'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli.

C1. Hoffech chi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?

☐ Byddwn

☐ Na fyddwn

Os ateboch chi Byddwn i'r cwestiwn hwn, rhowch eich rhesymau, ac esboniwch pa wybodaeth y dylid ei chadw'n gyfrinachol.

| |
|---|
| |

C2. Ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu grŵp? (Dewisol)

Dewiswch un ateb yn unig o blith yr opsiynau canlynol:

☐ Ymateb fel unigolyn
☐ Ymateb ar ran sefydliad neu grŵp
☐ Arall

Os ydych chi wedi dewis Arall, rhowch fanylion.

C3. Dywedwch wrthym faint roeddech chi'n ei wybod am y broses cyfiawnhad niwclear cyn darllen yr ymgynghoriad hwn a'r dogfennau ategol. (Dewisol)

☐ Dim gwybodaeth o gwbl
☐ Dealltwriaeth sylfaenol
☐ Dealltwriaeth dda
☐ Dealltwriaeth fanwl

C4. Cael yr wybodaeth ddiweddaraf

Hoffem roi gwybod i chi am ganlyniadau'r ymgynghoriad. Os hoffech chi gael e-bost yn cydnabod eich ymateb a chael gwybod bod dogfen ddrafft y penderfyniad wedi cael ei chyhoeddi, rhowch eich cyfeiriad e-bost isod. (Dewisol)

Eich cyfeiriad e-bost: ______________________________________________

Drwy roi eich cyfeiriad e-bost i ni, rydych chi'n rhoi caniatâd i ni anfon e-bost atoch chi am yr ymgynghoriad. Byddwn yn cadw eich manylion nes byddwn wedi rhoi gwybod i chi ein bod wedi cyhoeddi dogfen penderfyniad ddrafft.

Ni fyddwn yn rhannu eich manylion ag unrhyw drydydd parti arall heb eich caniatâd penodol chi oni bai fod y gyfraith yn mynnu ein bod yn gwneud hynny. Gallwch dynnu eich caniatâd i dderbyn y negeseuon e-bost hyn yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni yma: RRSMRAPPLICATION@defra.gov.uk gan roi'r canlynol yn y llinell pwnc: YMGYNGHORIAD: CAIS ROLLS-ROYCE SMR

C5. Dywedwch wrthym sut clywsoch chi am yr ymgynghoriad hwn. (Dewisol)

☐ Gohebiaeth uniongyrchol gan y llywodraeth
☐ Gan sefydliad arall
☐ Drwy fudiad/grŵp/clwb rydych chi'n aelod ohono
☐ Erthygl yn y wasg
☐ Cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft Facebook, X
☐ Drwy gyfarfod y buoch ynddo
☐ Arall (rhowch fanylion) ________________________________________

## Cwestiynau am y Cais a Gwybodaeth Atodol

1. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â safbwynt rhagarweiniol Defra bod yr arfer arfaethedig yng nghais Cymdeithas y Diwydiant Niwclear ar gyfer Adweithydd Modiwlaidd Bach Rolls-Royce a'r wybodaeth atodol yn perthyn i ddosbarth neu fath newydd o arfer? Cytuno/Anghytuno/Ddim yn siŵr

   Os ydych chi'n anghytuno neu'n ansicr, esboniwch pam.

| |
|---|
| |

2. Mae Rolls-Royce SMR Limited yn diffinio'r dosbarth neu'r math o arfer arfaethedig y ceisir Cyfiawnhad ar ei gyfer (yr “Arfer Arfaethedig”) fel a ganlyn: “Cynhyrchu pŵer o ynni niwclear gan ddefnyddio tanwydd ocsid gyda chyfran isel o ddeunydd ymholltol mewn adweithydd thermol sy’n gymedrolydd dŵr ysgafn wedi’i oeri, a elwir ar hyn o bryd yn RR SMR a ddyluniwyd gan Rolls-Royce SMR Limited.”

Ydych chi o'r farn bod y diffiniad hwn yn addas ar gyfer penderfyniad cyfiawnhau? Ydw/Nac ydw/Ddim yn siŵr

Os Nac ydw/Ddim yn siŵr esboniwch pam.

| |
|---|
| |

3. A yw'r wybodaeth yng nghais Cymdeithas y Diwydiant Niwclear a’r wybodaeth atodol yn addas i Defra allu gwneud asesiad priodol o fanteision ac anfanteision yr arfer arfaethedig? Ydw/Nac ydw/Ddim yn siŵr

Os Nac neu Ddim yn siŵr, pa ddadleuon neu dystiolaeth ychwanegol ddylai Defra eu hystyried?

Efallai y byddwch am strwythuro eich ymateb i gyd-fynd â'r penodau yn y cais.

| |
|---|
| |

## Sut mae ymateb

Y ffordd orau i ni gael ymatebion yw drwy hyb ymgynghori Citizen Space ar-lein. https://consult.defra.gov.uk/nuclear-justification/nuclear-rolls-royce-smr

Os nad ydych chi’n gallu defnyddio Citizen Space, gallwch lwytho’r dogfennau ymgynghori i lawr a defnyddio’r cwestiynau ymgynghori i strwythuro eich ymateb. Anfonwch eich ymateb dros e-bost i RRSMRAPPLICATION@defra.gov.uk neu drwy’r post i’r cyfeiriad isod:

FAO Nuclear Justification Team, Air Quality and Industrial Emissions Policy, Defra Ground Floor, Seacole Building, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF

Mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol yn yr ymgynghoriad hwn fel bod ymatebwyr yn cael cyfle i ymateb yn Gymraeg.

Cadwch eich ymatebion o fewn cwmpas y cwestiynau a ofynnir, gan na fydd ymatebion nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r cwestiynau a ofynnir yn cael eu hystyried.

Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 8 wythnos. Agorodd yr ymgynghoriad ar 6 Hydref 2025 a daw i ben ar 1 Rhagfyr 2025. Sylwch, rhaid i unrhyw ymatebion sy'n cael eu hanfon drwy'r post gyrraedd y cyfeiriad uchod erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, 1 Rhagfyr 2025, er mwyn cael eu hystyried. Yn anffodus, ni fydd unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben ar 1 Rhagfyr 2025 yn cael eu hystyried.

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch neges e-bost i: consultation.coordinator@defra.gov.uk.

## Adborth ymgyngoreion ar yr arolwg ar-lein

Annwyl Ymgynghorai

Diolch am roi o'ch amser i gymryd rhan yn yr arolwg ar-lein hwn. Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech roi eich barn am yr adnodd ymgynghori, a'r meysydd rydych chi'n teimlo sydd angen eu gwella, drwy lenwi ein holiadur adborth.

**Cwestiwn**: Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi â'n hadnodd ymgynghori ar-lein?

☐ Bodlon iawn
☐ Bodlon
☐ Ddim yn fodlon na'n anfodlon
☐ Anfodlon
☐ Anfodlon iawn
☐ Ddim yn gwybod

Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych am yr adnodd, gan gynnwys awgrymiadau ar sut y gallem ei wella.

## Ymatebion ymgyrchu

Rydym yn cydnabod y gall ymatebwyr ddewis defnyddio rhywfaint o destun safonol ar gyfer eu hymateb. Ymgyrchoedd yw pan fydd sefydliadau (neu unigolion) yn cydlynu ymatebion ar draws eu haelodau neu eu cefnogwyr, yn aml drwy awgrymu geiriad i ymatebwyr ei ddefnyddio. Mae ymatebion ymgyrchu fel arfer yn debyg iawn neu'n union yr un fath â'i gilydd. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, gellir dadansoddi ymatebion ymgyrchu ar wahân i ymatebion eraill i sicrhau bod modd crynhoi ehangder y safbwyntiau a geir yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd yr holl ymatebion ymgyrchu yn cael eu hystyried yn y dadansoddiad terfynol o farn y cyhoedd ac mae ymgyrchoedd yn helpu i roi syniad

o gryfder y teimlad ar fater. Y llwybr sy’n cael ei ffafrio i’r holl ymatebwyr roi eu barn (gan gynnwys lle mae ymateb yn seiliedig ar ymgyrch) yw drwy hyb Citizen Space.

# Y Camau Nesaf

Er mwyn cyfrannu at benderfyniad Defra, byddwn yn ystyried yr holl ymatebion a'r wybodaeth a gawn o'r ymgynghoriad hwn.

Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein dogfen penderfyniad ddrafft ar gyfer ymgynghoriad ar GOV.UK ddechrau 2026.